

CANLLAW I'CH PWMP GWRES FFYNHONNELL AER



Eich PWMP GWRES FFYNHONNELL AER



Eich Pwmp

Mae Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer Mitsubishi wedi'i osod yn eich eiddo. Nid oes angen i chi gyffwrdd â hwn. Cadwch yr ardal o gwmpas y pwmp yn glir i ganiatau llif aer da.

Thermostat

Mae thermostat Mitsubishi wedi'i gosod i reoli tymheredd eich cartref. Bydd hwn yn cael ei osod ar y wal a hwn fydd y prif reolydd. Gosodwch i dymheredd cyfforddus trwy ddefnyddio'r saethau ar y thermostat. Gallwch gynyddu neu ostwng y gwres dros ychydig ddyddiau nes eich bod wedi cyrraedd y tymheredd sy'n teimlo'n iawn i chi. Gyda'ch hen system wresogi, efallai eich bod yn gostwng y tymheredd pan yn y gwaith neu dros nos. Mae pwmp gwres yn wahanol. Mae'n fwyaf effeithiol pan ar un tymheredd. Penderfynwch ar y tymheredd hwnnw, gadewch lonydd iddo a gadewch iddo weithio! Os ydych yn bwriadu bod oddi cartref am dros 24 awr, gallwch ei droi i lawr.

Silindr Dŵr

Yn hwn bydd eich dŵr poeth yn cael ei storio. Does dim angen monitro hwn a ni ddylech gyffwrdd â'r offer rheoli na'r falfiau.



MANYLION CYSWLLT

Am waith trwsio brys ffoniwch Grŵp Cynefin:
0300 111 2122
Mwy o wybodaeth ar wefan Grŵp Cynefin
www.grwpcynefin.org/fy-nghartref-dwin-denant

Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn amrywiol dulliau gan gynnwys print, print bras, tâp sain a Braille. Cysylltwch â Grŵp Cynefin i gael cymorth pellach.





Falf Rheiddiadur Thermostatig (FRT)

Mae'r falfiau thermostatig yn rheoli tymheredd pob ystafell unigol. Mae hyn yn ei gwneud yn hawdd i addasu tymheredd pob ystafell fel y dymunwch. Bydd falfiau ar bob rheiddiadur heblaw un, sef y prif reiddiadur a fydd wedi ei leoli yn yr ystafell â'r thermostat. Mae'r tabl isod yn dangos y tymheredd. Rydyn ni'n argymhell gosod ar 3.

0°C	6°C	11-13°C	15-17°C	19-21°C	23-25°C	27-29°C
0	*	1	2	3	4	5

CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML



C: Pam nad yw fy rheiddiaduron yn boeth?

A: Gallai hyn fod yn normal gan fod pwmp aer wedi'i gynllunio i redeg rhwng 30°C - 45°C yn dibynnu ar y tymheredd y tu allan. Sicrhewch fod y system ymlaen a bod y sgrîn ar y pwmp gwres yn goleuo wrth ei weithredu. Gwnewch yn siŵr bod y thermostat(au) yn dangos bod angen gwres ac nad ydi'n dangos y gosodiad gwyliau. Dylai hyn ddatrys y rhan fwyaf o'r rhesymau pam nad yw'r rheiddiaduron yn gynnes. Os oes dal angen cymorth arnoch, cysylltwch â Grŵp Cynefin a gofynnwch am waith trwsio, 0300 111 2122.

C: A fydd fy mhwp gwres yn gweithio mewn rhew ac eira?

A: Mae gan eich pwmp gwres elfen stat rhew, sy'n golygu y gall barhau i weithio ar ei orau mewn tywydd oer. Mae'r elfen yma yn toddi unrhyw eira neu rew sy'n rwystr iddo. Mae'r hylif sy'n llifo o amgylch y system a'r pwmp gwres yn cynnwys glycol. Mae hwn yn las o ran lliw a byddwch yn ei weld wrth 'waedu' rheiddiaduron.

C: Pwy sy'n cynnal yr offer sydd wedi eu gosod?

A: Grŵp Cynefin sy'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw'r pwmp a'r silindr ar ôl eu gosod.

GWYBODAETH DIOGELWCH

- Peidiwch â chyffwrdd ag unrhyw gydrannau trydanol tra bod yr uned ar waith neu'r pŵer ymlaen.
- Cadwch bethau allai fynd ar dân yn hawdd o leiaf 3 troedfedd oddi wrth y pwmp gwres ffynhonnell aer.
- Peidiwch â rhwystro'r llif aer i'r uned, gan y gall hyn achosi gorboethi ac o bosibl achosi tân.
- Mae'r pwmp gwres ffynhonnell aer yn cynnwys oerydd (refrigerant) all fod yn niweidiol os caiff ei anadlu. Peidiwch ag agor pibellau oerydd.
- Dim ond technegwyr cymwys ddylai drin oerydd, gan ei fod yn sylwedd sy'n cael ei reoleiddio.

